YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19) (amcangyfrifon pennawd): yr wythnos diweddu 19 Chwefror 2022

Crynodeb o ganlyniadau pennawd cynnar y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r arolwg heintiadau Coronafeirws (COVID-19) ar gyfer yr wythnos diweddu 19 Chwefror 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Chwefror 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Chwefror 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Prif bwyntiau

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ni fydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach yn cyhoeddi prif ganlyniadau cynnar am 2yp ar ddydd Mercher. Felly, bydd yr adroddiad hwn yn peidio â chael ei gyhoeddi. Bydd y bwletin rheolaidd ar amcangyfrifon o'r **Arolwg Heintiadau Covid-19**yn cael ei gyhoeddi'n wythnosol ar ddydd Gwener am hanner dydd.

# Cyflwyniad

Yn ystod y cyfnod hwn o heintiadau uchel, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cyhoeddi canlyniadau pennawd cynnar o'r arolwg heintiadau Coronafeirws (COVID-19) ar ddydd Mercher. Mae'r datganiad hwn yn cyd-fynd â set ddata gyfyngedig sy'n cynnwys amcangyfrifon o bositifrwydd yn ôl gwlad a dadansoddiad amrywiaeth yn ôl gwlad. Dyma grynodeb o'r amcangyfrifon pennawd ar gyfer Cymru. Nid yw hyn yn disodli datganiad llawn yr arolwg heintiadau a gyhoeddir bob dydd Gwener am 12pm. **Mae SYG wedi cynhyrchu datganiad sy'n egluro'r angen am yr amcangyfrifon pennawd ychwanegol**.

Heddiw, **mae'r SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n profi'n bositif ar gyfer COVID-19 yn yr wythnos yn diweddu 19 Chwefror 2022**.

# Prif bwyntiau

- Yng Nghymru, mae canran y bobl sy'n profi'n bositif wedi gostwng dros bythefnos hyd at 19 Chwefror 2022, ond roedd y duedd yn ansicr yn ystod yr wythnos ddiweddaraf. Amcangyfrifir bod gan 98,200 o bobl yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 83,100 i 114,900), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 30 o bobl (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 35 i 1 o bob 25).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Mae heintiau COVID-19 sy'n gydweddu â'r Omicron yn parhau i fod yr amrywiad mwyaf cyffredin yng Nghymru.

Mae canran y bobl sy’n profi’n bositif am COVID-19 wedi gostwng yn ystod yr wythnos ddiweddaraf yn Lloegr. Yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon, mae canran y bobl sy’n profi’n bositif wedi gostwng dros bythefnos hyd at 19 Chwefror 2022, ond roedd y duedd yn ansicr yn ystod yr wythnos ddiweddaraf. Yn yr Alban, mae canran y bobl sy’n profi’n bositif am COVID-19 wedi cynyddu yn yr wythnos yn diweddu 20 Chwefror 2022.

## Cymhariaeth y DU


- Yn Lloegr, mae canran y bobl sy’n profi’n bositif wedi gostwng yn yr wythnos yn diweddu 19 Chwefror 2022. Amcangyfrifir bod gan 2,096,200 o bobl yn Lloegr COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 2,015,100 i 2,175,600), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 25 o bobl (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 25 i 1 o bob 25).
- Yng Ngogledd Iwerddon, gostwngodd canran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn y pythefnos yn diweddu 19 Chwefror 2022, ond roedd y duedd yn ansicr yn yr wythnos ddiweddaraf. Amcangyfrifir bod gan 132,700 o bobl yng Ngogledd Iwerddon COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 115,900 i 150,900), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 14 o bobl (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 16 i 1 o bob 12).
- Yn yr Alban, mae canran y bobl sy’n profi’n bositif wedi cynyddu yn yr wythnos yn diweddu 20 Chwefror 2022. Amcangyfrifir bod gan 240,700 o bobl yn yr Alban COVID-19 (cyfwng credadwy 95%: 215,100 to 269,400), sy'n cyfwerth i oddeutu 1 o bob 20 o bobl (cyfwng credadwy 95%: 1 o bob 25 i 1 o bob 20).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 1: Amcangyfrifon o ganran y boblogaeth yng ngwledydd y DU sy'n profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) ar swabiau trwyn a gwddf ers 9 Ionawr 2022**




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), SYG
Mae'r llinellau'n cynrychioli'r tueddiad sydd wedi'i fodelu sy'n seiliedig ar y data diweddaraf. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart, yn fwy ansicr.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl ganlyniadau yn rhai dros dro ac fallai bydd yn cael eu adolygu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r ystadegau hyn yn cyfeirio at heintiau sy'n digwydd mewn cartrefi preifat, ac nid ydynt yn cynnwys heintiau a adroddir mewn ysbytai, cartrefi gofal a / neu sefydliadau cymunedol eraill.

Mae cyfwng credadwy yn dangos y lefel o ansicrwydd i amcangyfrif mewn dadansoddiad data. Mae cyfryngau credadwy o 95% yn cael eu cyfrifo i sicrhau mai'r tebygolrwydd y bydd y gwir gwerth o fewn y cyfrwng yw 95%.

Nodwyd bod achosion yn cyfweld ag amrywiolion hysbys o Covid-19 yn seiliedig ar eu patrymau genetig. Yn ddiweddar, mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi ail-labelu **Amrywiolion o Bryder ac Amrywiolion o Ddiddordeb**. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am nodi amrywiolion yn yr arolwg ar wefan y **SYG**

Mae'r rhan fwyaf o heintiau'n gydweddu â'r amrywiolyn Omicron BA.1, felly rydym yn cyflwyno cyfanswm yr heintiau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

Ni fydd SYG bellach yn cyhoeddi prif ganlyniadau cynnar am 2yp ar ddydd Mercher. Bydd y bwletin rheolaidd ar amcangyfrifon o'r **Arolwg Heintiadau COVID-19** yn cael ei gyhoeddi'n wythnosol ar ddydd Gwener am hanner dydd.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sean White
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 64/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-amcangyfrifon-pennawd-yr-wythnos-diweddu-19-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.